**Y Pwyllgor Busnes**
—
**Business Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddBusnes@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddBusnes
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddBusiness@senedd.wales
senedd.wales/SeneddBusiness
0300 200 6565

Llyr Gruffydd AS
Cadeirydd Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

6 Hydref 2022

**Bil Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru)**

Annwyl Llyr,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 23 Medi 2022 ynghylch yr amserlen arfaethedig ar gyfer Bil Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru). Trafododd y Pwyllgor Busnes eich ymateb ac amserlen arfaethedig Llywodraeth Cymru yn ein cyfarfod ar 27 Medi.

Rydym yn gwerthfawrogi'n fawr y gwaith craffu y llwyddodd eich Pwyllgor ei wneud dros yr haf ar ôl i'r Llywodraeth gyhoeddi'r Bil drafft. Yng ngoleuni'r gwaith hwnnw, a'r sicrwydd yr oeddech yn gallu ei roi, felly, ynghylch y gwaith craffu a gynhaliwyd gennych ar y Bil, cytunodd y Pwyllgor Busnes i amserlen arfaethedig y Llywodraeth ar gyfer craffu ar y Bil, gan gynnwys peidio â'i gyfeirio at Bwyllgor cyfrifol i ystyried ei egwyddorion cyffredinol. Nodir y rhesymau llawn dros ein penderfyniad yn ein hadroddiad, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno.

Wrth ddod i'r penderfyniad hwn, gwnaethom nodi'r pwyntiau a wnaed yn eich llythyr na ddylid ystyried bod y dull a ddefnyddir mewn perthynas â'r Bil hwn yn cyfateb i, nac yn disodli'n ddigonol, waith craffu ffurfiol gan Bwyllgor Cyfnod 1.

Mae eich llythyr hefyd yn nodi bod gan y Llywodraeth fwyafrif cynhenid ar y Pwyllgor Busnes. Er bod hyn yn gywir o ran aelodaeth y Pwyllgor, mae hefyd yn wir bod Aelodau nad ydynt fel arall yn cael eu cynrychioli gan grŵp plaid yn gallu dod i gyfarfodydd y

Pwyllgor Busnes a bwrw pleidlais lle bo angen. Mae Jane Dodds AS yn dod i gyfarfodydd y Pwyllgor Busnes yn rheolaidd, a phan fydd hi’n bresennol, bydd nifer y pleidleisiau sydd gan y Llywodraeth a’r grwpiau eraill yn gyfartal. O dan yr amgylchiadau hynny, bydd yn ofynnol i mi arfer fy mhleidlais fwrw yn unol â’r Rheolau Sefydlog.

Cofion cynnes,

**Y Gwir Anrh. Elin Jones AS**
Y Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.